



Barnwriaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd

Protocol ar gyfer Cyhoeddi Dyfarniadau Gohiriedig yn y Llys Gweinyddol yn Ddwyeithog

1. Diben y Protocol hwn

1.1 Mae'r Protocol hwn yn sefydlu'r broses ar gyfer cynllun peilot ar gyfer cyhoeddiad dwyieithog o ddyfarniadau gohiriedig yn y Llys Gweinyddol yng Nghymru.

1.2 Pwrpas y cynllun peilot yw profi hyfywedd ymarferol cyhoeddi dyfarniadau o lysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru yn y Gymraeg a Saesneg. Mae'n cefnogi statws cyfartal yr iaith Gymraeg ac yn anelu at wella mynediad y cyhoedd at ddyfarniadau yng Nghymru.

1.3 Mae'r cynllun peilot yn cychwyn gyda dyfarniadau gohiriedig yn y Llys Gweinyddol yng Nghymru. Mae hynny'n pwynt cychwyn ymarferol oherwydd bod dyfarniadau o'r fath fel arfer yn cael eu paratoi yn ysgrifenedig cyn y maent yn cael eu traddodi, ac oherwydd bod modd cynllunio amserlen gyhoeddi ymlaen llaw.

1.4 Y nod yw, lle bo'r Protocol hwn yn berthnasol, y bydd fersiynau Saesneg a Chymraeg o'r dyfarniad yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd, ynghyd ag unrhyw grynoded o ddyfarniad, ar y wefan Judiciary.

2. Cwmpas y Peilot

2.1 Mae'r Protocol hwn yn berthnasol i ddyfarniadau gohiriedig yn y Llys Gweinyddol yng Nghymru.

2.2 Mae'n berthnasol lle bo'r barnwr wedi paratoi dyfarniad drafft i'w gylchredeg i'r partïon yn unol â Chyfarwyddyd Ymarfer 40E o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil (CPR) .

2.3 Nid yw'r Protocol yn berthnasol i ddyfarniadau ex tempore, dyfarniadau llafar brys, neu ddyfarniadau lle bo'r amserlen ar gyfer traddodi ddim yn caniatáu amser ar gyfer cyfieithu cyn cyhoeddi.

2.4 Bwriedir i'r Protocol weithredu fel cynllun peilot. Bydd yn cael ei adolygu yng ngoleuni profiad gweithredol, gan gynnwys yr amser sydd ei angen ar gyfer cyfieithu ar yr Uned Iaith Gymraeg, sut ymdrinnir â chywiriadau a'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi.

3. Egwyddorion Creiddiol

3.1 Mae'r cynllun peilot wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

(a) **Statws cyfartal Cymraeg a Saesneg** : dylai'r broses gefnogi'r argaeledd o ddyfarniadau yn y Gymraeg ac yn Saesneg.

(b) **Cyfiawnder agored**: dylai cyhoeddi dwyieithog wella mynediad at ddyfarniadau a chefnogi dealltwriaeth y cyhoedd o waith y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yng Nghymru.

(c) **Cywirdeb a sicrhau ansawdd**: Rhaid i gyfieithiadau Cymraeg o ddyfarniadau gael eu paratoi a'u gwirio trwy broses sy'n cynnal cywirdeb a chyfanrwydd y dyfarniad.

(d) **Rheolaeth farnwrol o'r dyfarniad**: mae'r barnwr yn parhau i fod yn gyfrifol am ffurf derfynol y dyfarniad i'w draddodi.

(e) **Ymarferoldeb**: rhaid i'r cynllun peilot weithredu o fewn yr adnoddau sydd ar gael ac mewn ffordd nad yw'n cyfaddawdu o ran paratoi a thraddodi trefnus o ddyfarniadau.

(f) **Adolygu a dysgu**: defnyddir y peilot i adnabod beth sy'n gweithio, beth sydd angen ei addasu, a p'un a oes modd ymestyn cyhoeddi dwyieithog maes o law.

4. Rolau a chyfrifoldebau

Y Barnwr

4.1 Mae'r barnwr yn gyfrifol am gadarnhau'r dyfarniad drafft Saesneg, ystyried unrhyw gywiriadau a gyflwynwyd gan y partion, a chymeradwyo'r dyfarniad Saesneg terfynol ar gyfer ei draddodi.

4.2 Lle bo crynodeb o ddyfarniad yn cael ei baratoi, mae'r barnwr yn gyfrifol am gadarnhau'r fersiwn Saesneg o'r crynodeb hwnnw.

Y Partïon

4.3 Mae'r partion yn gyfrifol am ystyried y dyfarniad drafft yn unol â Chyfarwyddyd Ymarfer 40E o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil (CPR) a chyflwyno unrhyw gywiriadau a ganiateir o fewn yr amser a gyfarwyddir gan y barnwr.

4.4. Rhaid i gywiriadau fod yn gyfyngedig i faterion a godwyd yn briodol o dan Cyfarwyddyd Ymarfer 40E, fel mân wallau argraffyddol, neu gywiriadau eraill o'r fath honno. Nid yw'r broses yn gyfle i ddadlau'r achos eto.

Yr Uned Iaith Gymraeg

4.5 Bydd yr Uned Iaith Gymraeg yn cyfieithu'r dyfarniad drafft i'r Gymraeg a, lle bo'n berthnasol, cyfieithu unrhyw grynoded o ddyfarniad.

4.6 Bydd yr Uned Iaith Gymraeg yn paratoi'r fersiwn Cymraeg terfynol ar ôl derbyn y dyfarniad Saesneg wedi'i gywiro gan y barnwr.

4.7 Bydd yr Uned Iaith Gymraeg yn hysbysu'r barnwr, neu glerc y barnwr, yn amserol os nad oes modd bodloni'r amserlen draddodi arfaethedig.

Cymorth Barnwrol a Gweinyddol

4.8 Bydd clerc y barnwr, Swyddfa'r Llys Gweinyddol, ac unrhyw dîm gweinyddol perthnasol arall yn cefnogi'r trosglwyddiad ymarferol o ddogfennau, pennu'r dyddiad traddodi, a'r trefniadau cyhoeddi.

5. Y Broses Safonol

Cam 1: Cadarnhau'r dyfarniad drafft

5.1 Mae'r barnwr yn cadarnhau'r dyfarniad drafft Saesneg i'w gylchredeg i'r partïon yn unol â Chyfarwyddyd Ymarfer 40E o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil (CPR) .

5.2 Yn y cam hwn, mae'r dyfarniad yn parhau i fod yn gyfrinachol ac yn destun y cyfyngiadau sy'n berthnasol i ddyfarniadau drafft sy'n cael eu cylchredeg cyn traddodi.

Cam 2: Cylchredeg i'r partïon a throsglwyddo i'r Uned Iaith Gymraeg

5.3 Pan mae'r dyfarniad drafft yn cael ei anfon at y partïon, fe'i anfonir hefyd i'r Uned Iaith Gymraeg i'w gyfieithu.

5.4 Dylai'r cyfathrebu i'r Uned Iaith Gymraeg gynnwys:

- (a) enw'r achos;
- (b) y rhif enwi niwtral, os yw eisoes ar gael;
- (c) y dyddiad a'r amser arfaethedig ar gyfer traddodi;
- (d) nifer geiriau'r dyfarniad;

(e) p'un a oes disgwyliad y bydd crynodeb o ddyfarniad;

(f) a oes unrhyw derminoleg Cymraeg penodol, darpariaethau statudol, enwau neu dermau technegol a all fod angen eu trin yn ofalus; ac

(g) enw a manylion cyswllt yr unigolyn y dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau atynt.

5.5. Bydd yr Uned Iaith yn dechrau paratoi'r cyfieithiad Cymraeg yn seiliedig ar y dyfarniad drafft a anfonir yn y cam hwn.

Cam 3: Cywiriadau gan y partïon

5.6 Mae'r partïon yn cyflwyno unrhyw gywiriadau arfaethedig i'r barnwr erbyn y terfyn amser a gyfarwyddwyd gan y barnwr.

5.7 Ar gyfer dyfarniadau o lai nag 20,000 o eiriau, mae'r amserlen debygol yn Atodiad A yn darparu ar gyfer 4 diwrnod gwaith rhwng cylchredeg y dyfarniad drafft a'r partïon yn cyflwyno cywiriadau.

Cam 4: Dyfarniad wedi'i gywiro yn cael ei anfon i'r Uned Iaith Gymraeg

5.8 Ar ôl ystyried unrhyw gywiriadau, mae'r barnwr yn cynhyrchu fersiwn wedi'i gywiro o'r dyfarniad.

5.9 Dylai'r dyfarniad wedi'i gywiro gael ei anfon i'r Uned Iaith Gymraeg gyda'r newidiadau wedi'u hamlygu trwy ddefnyddio 'track changes'. neu drwy ddull clir arall sy'n adnabod y newidiadau a wnaed i'r drafft a ddarparwyd yn flaenorol.

5.10 Os yw'r barnwr wedi paratoi crynodeb o'r dyfarniad, dylai'r crynodeb Saesneg gael ei anfon i'r Uned Iaith Gymraeg ar yr un pryd i gael ei gyfieithu.

5.11 Dylai'r barnwr neu glerc y barnwr gadarnhau dyddiad ac amser arfaethedig ar gyfer y traddodi arfaethedig wrth anfon y dyfarniad wedi'i gywiro ac unrhyw grynoded i'r Uned Iaith Gymraeg.

Cam 5: Cyfieithiad Cymraeg terfynol

5.12 Mae'r Uned Iaith Gymraeg yn paratoi'r fersiwn Cymraeg terfynol o'r dyfarniad wedi'i gywiro.

5.13 Lle bo crynodeb o ddyfarniad yn cael ei ddarparu, bydd yr Uned Iaith Gymraeg hefyd yn paratoi'r fersiwn Cymraeg o'r crynodeb.

5.14 Ar gyfer dyfarniadau sy'n llai nag 20,000 o eiriau, mae'r amserlen debygol yn Atodiad A yn darparu ar gyfer dim llai na 3 diwrnod gwaith rhwng yr Uned Iaith Gymraeg yn derbyn y dyfarniad wedi'i gywiro ac adeg traddodi'r dyfarniad.

Cam 6: Traddodi a chyhoeddi

5.15 Mae'r dyfarniad yn cael ei draddodi ar y dyddiad a bennwyd gan y llys.

5.16 Lle bo'r Protocol hwn yn berthnasol, bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r dyfarniad yn cael eu traddodi a'u cyhoeddi ar yr un pryd.

5.17 Bydd unrhyw grynoded o ddyfarniad hefyd yn cael ei gyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd, lle bo crynodeb wedi'i baratoi.

5.18 Bydd y cyhoeddi yn digwydd ar y wefan Judiciary a thrwy ei gyflwyno i'r Archifau Cenedlaethol, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau ar gyhoeddi, gofynion o ran gwneud pethau'n ddi-enw, cyfyngiadau adrodd, neu orchmynion eraill a wneir gan y llys.

6. Cyfrinachedd ac Embargo

6.1 Mae dyfarniadau drafft sy'n cael eu cylchredeg o dan Cyfarwyddyd Ymarfer 40E o'r CPR yn gyfrinachol.

6.2 Bydd yr Uned Iaith Gymraeg yn derbyn y gorchymyn drafft dim ond at y pwrpas o baratoi'r cyfieithiad Cymraeg a chefnogi'r cyhoeddi dwyieithog.

6.2 Ni ddylai'r gorchymyn drafft, y cyfieithiad Cymraeg sy'n cael ei baratoi, ac unrhyw grynoded o'r dyfarniad gael eu datgelu neu eu defnyddio at unrhyw bwrpas oni bai am weithredu'r Protocol hwn cyn traddodi.

6.4 Mae'r partïon yn parhau i fod wedi'u rhwymo gan y cyfyngiadau arferol sy'n berthnasol i ddyfarniadau drafft sy'n cael eu cylchredeg cyn traddodi.

7. Newidiadau ar ôl i'r broses gyfieithu gychwyn

7.1 Bydd yr Uned Iaith Gymraeg yn cychwyn ar y gwaith cyfieithu unwaith y bydd yn derbyn y dyfarniad drafft.

7.2 Os gwneir cywiriadau i'r dyfarniad nes ymlaen, bydd y barnwr yn darparu'r fersiwn wedi'i gywiro gyda'r newidiadau wedi'u dangos yn glir.

7.3 Pwrpas dangos newidiadau yw caniatáu i'r Uned Iaith Gymraeg adnabod beth yw'r newidiadau y mae'n rhaid eu gwneud i'r fersiwn Cymraeg terfynol.

7.4 Os yw'r cywiriadau yn sylweddol, neu os yw'r dyfarniad wedi'i ailysgrifennu'n sylweddol, efallai bydd angen addasu'r dyddiad traddodi.

8. Crynodebau o Ddyfarniad

8.1 Lle bo barnwr yn paratoi crynodeb o ddyfarniad, dylai'r crynodeb gael ei drin fel rhan o'r broses gyhoeddi dwyieithog.

8.2 Dylai'r crynodeb gael ei anfon i'r Uned Iaith Gymraeg unwaith y bydd ar gael.

8.3 Os nad yw'r crynodeb ar gael pan fydd y dyfarniad drafft yn cael ei anfon i'r Uned Iaith Gymraeg yn y lle cyntaf, dylid ei anfon pan fydd y dyfarniad wedi'i gywiro yn cael ei anfon.

8.4 Y nod yw bod unrhyw grynodeb o ddyfarniad yn cael ei gyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd â'r dyfarniad.

9. Materion cyhoeddi

9.1 Cyn cyhoeddi, dylai'r barnwr neu'r tîm gweinyddol perthnasol gadarnhau:

- (a) mae'r dyfarniad Saesneg terfynol wedi'i gymeradwyo ar gyfer traddodi;
- (b) mae'r fersiwn Cymraeg terfynol wedi'i ddarparu gan yr Uned Iaith Gymraeg;
- (c) mae unrhyw grynodeb o ddyfarniad wedi'i gadarnhau yn y ddwy iaith;
- (d) bydd unrhyw gyfyngiadau o ran gwneud pethau'n ddi-enw, cyfyngiad adrodd, neu gyfyngiad cyhoeddi arall, wedi'u gweithredu'n gyson ar gyfer y ddau fersiwn; ac
- (e) mae'r trefniadau cyhoeddi wedi'u cadarnhau.

9.2 Dylai'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gael eu hadnabod yn glir fel fersiynau cyfatebol o'r un dyfarniad.

9.3 Lle bo'n briodol, dylai'r fersiynau cyhoeddedig ei wneud yn glir mai'r fersiwn Cymraeg yw cyfieithiad Cymraeg a baratowyd i'w gyhoeddi o dan y Protocol hwn.

10. Adolygiad o'r Peilot

10.1 Bydd gweithrediad y Protocol hwn yn cael ei adolygu yn dilyn cyfnod cynllun peilot cychwynnol o 12 mis.

10.2 Dylai'r adolygiad ystyried:

- (a) adborth gan ddefnyddwyr llys a rhanddeiliaid eraill;
- (b) p'un a yw'r amserlen debygol yn realistig;
- (c) p'un a yw'r broses wedi galluogi gweithdrefnau sicrhau ansawdd priodol;

(d) yr effaith ar yr Uned Iaith Gymraeg;

(e) y nifer a'r math o ddyfarniadau sy'n addas ar gyfer cyhoeddi'n ddwyieithog;

(f) p'un a oes modd cynnwys dyfarniadau hwy;

(h) hyfywedd ymestyn y broses o gyhoeddi dyfarniadau'n ddwyieithog i lysoedd a thribiwnlysoedd eraill yng Nghymru; a

(h) unrhyw newidiadau sydd eu hangen i wella eglurder, cyflymder, cywirdeb neu fynediad y cyhoedd.

Atodiad A: Amserlen Debygol ar gyfer Dyfarniadau sy'n Llai nag 20,000 o Eiriau

Mae'r Atodiad hwn yn pennu'r amserlen debygol lleiaf ar gyfer dyfarniadau gohiriedig o lai nag 20,000 o eiriau.

A1. Amserlen Safonol Lleiaf

Cam	Cam 1	Cyfnod Lleiaf Tebygol
Diwrnod 0	Dyfarniad drafft yn cael ei gylchredeg i'r partion o dan CPR PD40E a'i anfon i'r Uned Iaith Gymraeg ar yr un pryd	—
Diwrnodau 1–4	Mae'r partion yn ystyried y gorchymyn drafft ac yn cyflwyno unrhyw gywiriadau a ganiateir	Dim llai na 4 diwrnod gwaith
Diwrnod 4	Cywiriadau yn cael eu cyflwyno i'r barnwr	—
Diwrnod 4/5	Mae'r barnwr yn ystyried y cywiriadau ac yn anfon y dyfarniad wedi'i gywiro, gyda'r newidiadau wedi'u dangos, i'r Uned Iaith Gymraeg. Bydd unrhyw grynodedb o ddyfarniad yn cael ei anfon ar yr un pryd.	Cyn gyntad ag y bo'n ymarferol
Diwrnodau 5–7	Mae'r Uned Iaith Gymraeg yn paratoi'r fersiwn Cymraeg terfynol o'r dyfarniad wedi'i gywiro ac unrhyw grynodedb	Dim llai na 3 diwrnod gwaith
Diwrnod 8 neu'n hwyrach	Dyfarniad ac unrhyw grynodedb yn cael ei draddodi a'i gyhoeddi yn Saesneg ac yn y Gymraeg	Dim cyn i'r cyfnodau lleiaf isod ddod i ben

A2. Effaith Ymarferol

A2.1 Ar gyfer dyfarniadau sy'n llai nag 20,000 o eiriau, dylai'r amserlen lleiaf arferol felly ganiatáu ar gyfer o leiaf:

- (a) 4 diwrnod gwaith rhwng cylchredeg y dyfarniad drafft a'r terfyn amser ar gyfer cywiriadau gan bartion; a
- (b) 3 diwrnod gwaith rhwng cael cyfieithiad o'r dyfarniad wedi'i gywiro gan yr Uned Iaith Gymraeg a'r dyddiad traddodi.

A2.2 Yn ymarferol, mae hyn yn golygu na ddylai'r llys bennu dyddiad traddodi yn gynharach na 7 diwrnod ar ôl cylchredeg y dyfarniad drafft, oni bai bod yr Uned Iaith Gymraeg yn cadarnhau bod modd bodloni'r amserlen honno.

A3. Dyfarniadau Hwyr neu Achosion Cymhleth

A3.1 Gall dyfarniadau hwyr, dyfarniadau gyda terminoleg arbenigol helaeth, dyfarniadau sydd â chywiriadau sylweddol, neu ddyfarniadau gyda chrynodebau hir, fod angen amserlen hirach.

A3.2 Mewn achosion o'r fath, dylai'r barnwr neu glerc y barnwr ymgynghori â'r Uned Iaith Gymraeg cyn i'r dyddiad traddodi gael ei bennu.